Llawlyfr i **Denantiaid**



Tai Teulu

Cynnwys

Rhan Un
Manylion cyswllt 3

Rhan Dau
Cyflwyniad i Gymdeithas Tai Teulu 4/5

Rhan Tri
Cyfranogiad tenantiaid 6/7

Rhan Pedwar
Cwynion & Chanmoliaethau 8/9

Rhan Pump
Gwasanaethau Eiddo 10/11

Rhan Chwech
Rhenti 12

Rhan Saith
Trosglwyddiadau, Cyfnewidiadau & Phrynu eich Cartref 13/14

Rhan Wyth
Dod â Thenantiaeth i Ben 15

Rhan Naw
Gwasanaethau Pobl Hŷn 16/17

Rhan Deg
Tai â Chymorth 18

Rhan Unarddeg
Ymddygiad annerbyniol 19



Manylion cyswllt

Unwaith rydych chi wedi ymgartrefu, cymrwch amser i ddarllen y llawlyfr hwn. Cyfeiriwch hefyd at eich Cytundeb Tenantiaeth.

Ein Prif Swyddfa:

Cymdeithas Tai Teulu
43 Heol Walter
Abertawe
SA1 5PN

RHAN 1

Oriau Agor 9.00yb – 5.00yh
Llun i Wener
AR GAU YN YSTOD GWYLIAU BANC

Ffôn: **01792 460192**
Ffacs: **01792 473726**

Rhif argyfwng y tu allan i oriau

0800 435223

E-bost: **info@fha-wales.com**
Gwefan: **www.fha-wales.com**

Cysylltiadau defnyddiol

Rhadffôn Atgyweiriadau: **0800 435223**
Rhadffôn Rhenti: **0800 021 3930**
Tîm Rhenti: **01792 482705**
Tîm Gosodiadau: **01792 482702**

Cyflwyniad i Tai Teulu

Rydym yn landlord cymdeithasol cofrestredig, sydd wedi'n rheoleiddio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae gennym fflatiau a thai drwy gydol Abertawe a Sir Gaerfyrddin, a hefyd yng Nghastell-nedd Port Talbot, Ceredigion a Sir Benfro. Rydym hefyd yn darparu llety i bobl sydd angen cymorth.

Ein Datganiad Cenhadaeth

"Rydym yn darparu cartrefi a gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n darparu cefnogaeth a chymorth i bobl pan fo angen."

Cyfleoedd Cyfartal

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau fod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu rhoi ar waith o fewn egwyddorion arferion Cyfleoedd Cyfartal a gwrth-wahaniaethol. Ein nod yw sicrhau ein bod ni'n gweithio mewn ffordd gwrth-wahaniaethol, fel cyflogwr yn ogystal â fel darparwr gwasanaeth. Wrth i ni arolygu pob polisi a gweithdrefn, fe fyddwn ni'n gwneud hyn gyda'r bwriad o barhau i wella ein harferion o fewn yr egwyddorion hyn.

Yn ystod eich tenantiaeth, fe fyddwn ni'n:

- Rhoi llety i chi
- Cynnal atgyweiriadau pan fo angen
- Darparu cyngor ar Fudd-daliadau Tai ac ar fudd-daliadau eraill os oes angen
- Darparu cyngor os ydych chi'n hwyr gyda'ch rhent
- Eich cynorthwyo chi i ddod o hyd i gartref newydd os fyddwch chi fyth angen symud
- Eich diweddaru chi'n rheolaidd
- Eich gwahodd chi i ddod ynghlwm gyda'r Gymdeithas
- Eich cefnogi chi gyda'ch tenantiaeth os oes angen

Safonau Gwasanaeth

Mae cyfres o safonau gwasanaeth wedi cael eu cynhyrchu yn dilyn ymgynghoriad gyda thenantiaid. Mae'r rhain yn cael eu defnyddio i fesur ansawdd y gwasanaeth rydyn ni'n darparu. Mae'r safonau cyfredol ar gael pe gofynnir.

Cyfrinachedd

Mae'r holl wybodaeth rydyn ni'n derbyn amdanoch chi'n cael ei drin yn gyfrinachol. Mae hyn yn golygu mai dim ond y bobl sydd angen gwybod y wybodaeth yma fydd yn cael mynediad iddo.

RHAN 2

Pa wybodaeth ydyn ni'n gadw?

- Gwybodaeth am eich anghenion tai pan rydych chi'n gwneud cais am dŷ.
- Manylion perthnasol ynghylch eich tenantiaeth.
- Caiff yr holl wybodaeth ei gadw'n ddiogel.

A gaf i weld fy ffeil?

- Cewch, ar ôl ysgrifennu atom ni, a rhoi 28 diwrnod o rybudd i ni.
- Fe wnawn ni gywiro unrhyw gamgymeriadau.
- Ni chawn ni ddangos gwybodaeth sy'n cael ei roi i ni gan asiantaeth arall heb gael cadarnhad ganddynt ar bapur.
- Mae posibiliad y codir tâl am y gwasanaeth yma.

Cyfranogiad Tenantiaid

Pwrpas Cyfranogiad Tenantiaid yw cyfathrebu a rhannu gwybodaeth a syniadau. Mae'n caniatáu i denantiaid i gael mwy o lais ac i gymryd mwy o ran yng ngweithgareddau a busnes y Gymdeithas.

Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Cenedlaethol

Fe ryddhaodd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r Strategaeth hon, gan nodi y dylai'r holl Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig hyrwyddo Cyfranogiad Tenantiaid a chynhyrchu Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol.

RHAN 3

Fe ofynnon ni wrth TPAS (Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid) i'n cynorthwyo ni i lunio'r strategaeth hon. Fe dderbynion ni adborth gwych ynghylch y cynnwys.

Cyfranogiad Tenantiaid Nawr

Yn ystod y broses o ddatblygu ein Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol, fe ddaeth yn amlwg bod angen ailstrwythuro Cyfranogiad Tenantiaid. Mae gan Gymdeithas Tai Teulu ddau denant ar y Bwrdd Rheoli, ac mae'r Panel Tenantiaid wedi bod mewn grym am tua deuddeg mlynedd. Fodd bynnag, nid yw mynychu cyfarfodydd mor ffurfiol, yn ogystal â'r ymrwymiad sydd ynghlwm, at ddant pawb.

Yn ystod tymor y gwanwyn 2008, roedd yn bleser gennym gyhoeddi bod y Panel Tenantiaid wedi derbyn Grant Grymuso Tenantiaid i sefydlu Grŵp Gwasanaethau Eiddo i Denantiaid. O ganlyniad i'r llwyddiant yma, rydym nawr wedi ffurfio Grŵp Rheoli Tai i Denantiaid.

Mae grŵp o denantiaid wedi cael eu hyfforddi i ddod yn Aseswyr Gwasanaeth. Fe fyddan nhw'n gweithio gyda ni i archwilio ein gwasanaethau.

Mae gennym ni grwpiau llai sy'n dod at ei gilydd i drafod pynciau penodol, a grŵp darllen sy'n arolygu gwybodaeth i denantiaid yn ogystal â'n polisïau a'n gweithdrefnau. Mae gennym ni hefyd gronfa ddata o denantiaid sydd ond eisiau i ni gysylltu â nhw dros y ffôn neu drwy e-bost bob hyn a hyn.

Mae ffyrdd llai ffurfiol o gymryd rhan yn cynnwys cyflwyno erthygl neu lun ar gyfer Cylchlythyr y Tenantiaid neu gystadlu yn y Cystadlaethau Gardd neu Golff Blynyddol. Felly, dylai dull fod ar gael i weddu pawb sydd eisiau cymryd rhan.

RHAN 3

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn unrhyw rai o'r uchod, neu os hoffech chi ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid drwy ffonio 01792 482762, drwy anfon e-bost at: tenantparticipation@fha-wales.com, neu drwy'r post: 43 Heol Walter, Abertawe, SA1 5PN.

Aseswyr Gwasanaeth 2009

Rhes Gefn Ch-Dd: Keith Rogers, Doug Illing, Roy Raven, Tony Gilby, Mike Wiseman
Rhes Flaen Ch-Dd: Jennifer Howells, Carol Johns, Maria Round, Kath Jones

Cwynion & Chanmoliaethau

Sut i wneud cwyn ynghylch ein gwasanaeth

Yn Tai Teulu, rydym yn gwneud ein gorau i gynnig y gwasanaeth gorau posib bob amser, ond bydd adegau pan nad yw unigolyn yn hapus gyda'r gwasanaeth rydyn ni'n darparu. Pwrpas ein polisi cwynion yw cyfeirio at unrhyw bryderon a'n cynorthwyo ni i wella ein gwasanaethau.

Ein nod yw delio gyda phob cwyn yn deg, yn amhleidiol, yn gyfrinachol ac ar unwaith.

Sylwer nad yw gwneud cwyn yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar unrhyw rai o'ch hawliau fel tenant Tai Teulu neu ar ddiogelwch eich tenantiaeth.

Beth yw cwyn?

Nid yw'r math o gwyn rydyn ni'n golygu yn ymddygiad gwael gan gymydog er enghraifft. (gweler adran 11). Fodd bynnag, gallech chi gwyno am eich anfodlonrwydd chi gyda beth rydyn ni wedi gwneud (neu fethu â gwneud), i ddelio gyda'r ymddygiad gwrthgymdeithasol hynny. Yn ogystal, gallech chi gwyno am eich anfodlonrwydd gyda'r gwasanaeth a ddarperir o dan ein polisïau, neu am ymddygiad unrhyw aelod o staff, asiantaethau neu gontractwyr.

Yn aml, y ffordd fwyaf cyflym o ddatrys problem yw drwy ein ffonio ni neu drwy alw mewn i'n Prif Swyddfa a siarad gydag aelod o staff, fydd yn hapus i wneud eu gorau i ddatrys eich cwyn. Os ydych chi'n siarad gyda rhywun sydd ddim yn gallu delio gyda'ch cwyn, bydd eich cwyn yn cael ei hanfon ymlaen at rywun sydd â'r awdurdod i wneud hyn.

Canmoliaethau

Rydym yn croesawu adborth positif hefyd, a hoffem glywed gennych chi pan fo pethau'n mynd yn dda!

Gellir dod o hyd i fanylion ynghylch sut i wneud cwyn mewn taflen sydd ar gael yn ein swyddfeydd ac ar ein gwefan, neu fe wnawn ni anfon copi atoch chi os wnewch chi gysylltu â ni. Mae'r daflen hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar beth i'w wneud ac ar sut i gysylltu gydag Ombwdsmon Llywodraeth Cynulliad Cymru os nad ydych chi'n hapus gyda'r ffordd rydym wedi delio â'ch cwyn.

RHAN 4

Ysgrifennwch at:
Cymdeithas Tai Teulu
43 Heol Walter
Abertawe
SA1 5PN

Rhif ffôn: **01792 460192**

Ffacs: **01792 473726**

E-bost: **info@fha-wales.com**

Gwefan: **www.fha-wales.com**

Gwasanaethau Eiddo

Mae'r staff yn yr Adran Gwasanaethau Eiddo'n rheoli gwaith cynnal a chadw a gwelliannau i'n cartrefi a'n hardaloedd tirlun.
Mae gennym gontract ar gyfer gwaith cynnal a chadw a gwelliannau gyda chontractwyr adeiladu lleol sydd â thargedau pendant ar gyfer y safon o wasanaeth mae'n rhaid iddynt ddarparu. Yn ogystal, mae gan y Gymdeithas staff ystadau sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol, sy'n gwneud y gwaith tirlunio.

RHAN 5

Os ydych chi angen sôn am atgyweiriad, gallwch chi wneud hyn drwy unrhyw rai o'r ffyrdd canlynol:

- Ffôn neu radffôn: 0800 435223
- E-bost: repairs@fha-wales.com
- Mewn person yn y Brif Swyddfa
- Ffacs: 01792 600290
- Hysbysu aelod o staff.
- Ysgrifennu i'n Prif Swyddfa.

Fe fyddwn ni'n gofyn i'r contractwr i ymateb gan ddefnyddio'r blaenoriaethau canlynol:

Blaenoriaeth Swydd	Amseroedd Targed	Enghreifftiau
Argyfyngau		
Mae'r broblem yn achosi perygl difrifol i iechyd pobl neu i eiddo.	O fewn 2 awr	Nwy neu fwg yn gollwng o foeleri, gollyngiadau dŵr difrifol, namau trydanol peryglus.
	O fewn 24 awr	System wresogi neu ddŵr poeth wedi torri, lifft wedi torri, toiled wedi blocio neu dorri (oni bai bod gennych chi ddau doiled).
Atgyweiriad Brys		
Gallai'r broblem fod yn anghyfleus iawn, ond ni fydd yn creu perygl.	O fewn 7 diwrnod calendr	Peipen wastraff wedi blocio, to yn gollwng, system wresogi wedi torri'n rhannol, gosodiadau trydanol wedi torri.

Atgyweiriadau dydd i ddydd

Gallai'r broblem achosi difrod i'ch cartref os nad yw hi'n cael ei datrys yn gyflym, ond ni fydd yn achosi llawer o anghyfleustra.	O fewn 28 diwrnod calendr	Atgyweiriadau i unedau'r gegin, ail-blastro, pren yn rhydu, atgyweiriadau i ffaniau echdynnu.

Atgyweiriadau wedi'u trefnu o flaenllaw

Gwaith a allai gael ei gynllunio gydag eraill.	Hyd at 60 diwrnod	Cegin newydd, adnewyddu pethau yn yr ystafell ymolchi

RHAN 5

Yn ogystal, gall y Gwasanaethau Eiddo roi gwybodaeth i chi ynghylch y canlynol:

- Cymhorthion & addasiadau
- Gwasanaethu'r gwres canolog
- Sut i gynnal atgyweiriadau
- Mynediad drwy apwyntiad
- Côd Ymddygiad i Gontractwyr
- Diogelwch tân (Gorchymyn diogelwch tân)
- Hawlio arian am ddifrodon neu golled yn erbyn y Gymdeithas
- Codi tâl ar denantiaid
- Atgyweiriadau i'ch cartref – beth ddylen ni wneud & beth ddylech chi wneud
- Delio gyda phlâu a heigiadau
- Safonau Ansawdd Tai Cymru
- Targedau ar gyfer ymateb i atgyweiriad
- Yr hawl i atgyweirio
- Ffioedd Gwasanaeth (taflenni sy'n benodol i gynllun)
- Dewis tenantiaid
- Cyfarwyddyd i denantiaid ar sut i osod teledu lloeren
- Gwelliannau i Denantiaid
- Y Grŵp Gwasanaethau Eiddo i Denantiaid

Rhenti

Sut i dalu eich rhent

- Dros y ffôn - Ffoniwch 01792 482705 neu'r rhif Rhadffôn 0800 0213930 a thalwch dros y ffôn (cerdyn debyd neu gredyd fel Visa, Delta, Mastercard, Switch ac ati)
- Cerdyn Talu - Defnyddiwch eich cerdyn talu mewn siopau, swyddfeydd post, garejys sy'n arddangos y Pwynt Talu a'r arwydd Swyddfa Bost. Nid yw ein cardiau talu'n cael eu derbyn ym mannau Pay Zone. (Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cadw eich derbynneb, fel prawf eich bod chi wedi talu).
- Drwy Archeb Sefydlog - Cysylltwch â'r Adran Rhent a gallan nhw roi ffurflen i chi i'w chwblhau a'i hanfon ymlaen i'ch banc neu Gymdeithas Adeiladu. Yna, bydd eich rhent yn cael ei dalu'n syth i ni.
- Debyd Uniongyrchol - Cysylltwch â'r Adran Rhent ac fe fyddan nhw'n anfon ffurflen Cyfarwyddyd Debyd Uniongyrchol i chi ei llenwi a'i dychwelyd i'r Gymdeithas. Fe fydd eich rhent yn cael ei dalu'n rheolaidd ac ar amser.
- Housing Benefit Direct – Os ydych chi'n derbyn Budd-dal Tai, gall yr Awdurdod Lleol ei anfon yn syth atom ni.
- Taliadau uniongyrchol drwy'r DSS - Os nad oes gennych chi ôl-ddyledion o fwy nag 8 wythnos, gallwch chi ofyn a allai taliadau ôl-ddyledion gael eu cymryd yn syth o'ch budd-daliadau.

RHAN 6

Os gewch chi unrhyw anhawster o ran talu eich rhent, cysylltwch â ni ar unwaith am gyngor a chymorth. Mae taflen ar gael sy'n darparu manylion llawn.

Cofiwch y gallech chi fod mewn perygl o golli eich cartref os nad ydych chi'n talu eich rhent.

Gellir cysylltu â'r Tîm Rhenti drwy ffonio 0800 021 3930 neu 01792 482705, neu drwy anfon e-bost at info@fha-wales.com

Trosglwyddiadau, cyfnewidiadau & phrynu eich cartref

Yn y dyfodol, efallai y byddwch chi angen symud tŷ, er enghraifft, os bydd aelodau o'ch teulu'n gadael cartref neu os ydych chi'n cael mwy o blant. Mae sawl opsiwn ar agor i chi.

Trosglwyddo

Gallwch chi wneud cais i drosglwyddo i un o'n heiddo eraill:

- Os ydych chi wedi talu eich rhent hyd yma
- Os yw eich tŷ mewn cyflwr da, ac
- Os ydych chi wedi bod yn denant am 12 mis.

RHAN 7

Cyd-gyfnewid

- Mae'r cynllun ar agor i denantiaid pob Awdurdod Lleol a Chymdeithas Tai. Felly, gallwch chi gyfnewid eiddo gyda thenant o'r cyngor, er enghraifft.
- Mae'r Gymdeithas, ochr yn ochr â landlordiaid eraill, yn aelod o HOMESWAPPER, cofrestr cyd-gyfnewid ledled y wlad, am ddim.
- I gael rhagor o wybodaeth neu i wneud cais i ymuno â Chynllun Homeswapper, ewch i www.homeswapper.co.uk. Os nad oes gennych chi fynediad i'r Rhyngrwyd, cysylltwch â'r tîm gosodiadau ar 01792 482702 ac fe fyddan nhw'n hapus i'ch helpu chi i gofrestru.

Yr Hawl i Gaffael

- Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd hawl gennych chi i wneud cais i brynu'r tŷ rydych chi'n byw ynddo.
- I wneud cais, mae'n rhaid eich bod chi wedi bod yn denant diogel neu'n denant sicr am o leiaf 5 mlynedd (ond nid yn barhaol), ac mae'n rhaid i chi fod yn byw mewn eiddo sy'n hunangynhwysol ac sydd wedi cael ei ariannu'n llwyr neu'n rhannol drwy gyfrwng Grant Tai Cymdeithasol ar ôl 1 Ebrill 1987.

Gallwch chi gael taflen wybodaeth sy'n rhoi manylion llawn o'r uchod drwy gysylltu â'r Tîm Rheoli Tai ar 01792 482702 neu drwy ymweld â'n gwefan yn www.fha-wales.com

Sylwer os gwelwch yn dda, gyda rhai mathau o gytundeb tenantiaeth, efallai na fydd yn bosib cyd-gyfnewid. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Rheoli Tai fel yr uchod.

Dod â thenantiaeth i ben

Os ydych chi'n symud allan o'ch tŷ, mae sawl peth pwysig i'w cofio.

Mae'n rhaid i chi roi rhybudd o 4 wythnos i ni ar bapur yn nodi'ch bod chi'n symud allan. Os ydych chi'n byw mewn tŷ â chymorth, gallai'r cyfnod amrywio, yn dibynnu ar eich cytundeb deiliadaeth. Bydd eich Gweithiwr Cymorth yn egluro hyn yn fwy manwl.

Gallwch chi ofyn am daflen gan ein Tîm Rheoli Tai ar y canlynol:

- Dod â'ch Tenantiaeth i Ben
- Dod â Thenantiaeth i Ben ar ôl i Denant Farw
- Dod â'ch Tenantiaeth i Ben mewn Amgylchiadau Eithriadol

Gellir cysylltu â'r Tîm Rheoli Tai drwy ffonio 01792 482702, drwy anfon llythyr i 43 Heol Walter, Abertawe, SA1 5PN neu drwy anfon e-bost i info@fha-wales.com.

RHAN 8

Gwasanaethau pobl hŷn

Nod y Gwasanaeth

Nod y gwasanaeth yw galluogi tenantiaid 55 mlwydd oed a hŷn i fyw mor annibynnol â phosib.

Llety i Bobl Hŷn

Mae Llety i Bobl Hŷn yn cynnig y cyfle i denantiaid i fyw mewn amgylchedd diogel sydd â chymorth addas ar gael i gynnal eich annibyniaeth ac i'ch cynorthwyo chi i fyw yn eich cartref.

Gall y Gweithiwr Cymorth Tenantiaeth ddarparu cyngor a chymorth i'ch cynorthwyo chi, sy'n cynnwys y canlynol:

- Cymorth i hawlio Budd-daliadau Lles ac uchafu eich incwm i'r eithaf
- Cyngor i sôn am atgyweiriadau a chynnal a chadw eich llety
- Cymorth i'ch 'cyfeirio' chi at asiantaethau neu wasanaethau fydd yn cwrdd â'ch anghenion orau
- Cyngor i gynnal eich Tenantiaeth
- Cymorth i asesu adnoddau cymunedol sy'n cynnwys cyfleoedd hamdden, addysg a chymdeithasol.

Gwasanaeth Tu Allan i Oriau (Rheolaeth Ganolog)

Pan nad yw'r Gweithiwr Cymorth Tenantiaeth ar ddyletswydd, caiff cymorth ei ddarparu drwy'r system gyfathrebu mewn fflatiau unigol. Pe byddech chi angen cymorth tu allan i oriau, dylech chi dynnu'r cord neu wthio'r botwm ar eich system. Os fyddwch chi'n gwneud hyn, bydd gweithredwr o'r Rheolaeth Ganolog yn ateb eich galwad a'n cynnig cyngor i chi, neu'n trefnu i alw'r gwasanaethau argyfwng os oes angen.

RHAN 9

Gwasanaeth Cymorth fel y Bo'r Angen i Bobl Hŷn

Mae'r gwasanaeth AM DDIM yma'n cynnig cymorth sy'n gyfyng o ran amser, sy'n cael ei deilwra i gwrdd â'ch anghenion. Mae'r gwasanaeth ar agor i denantiaid Cymdeithas Tai Teulu sydd dros 55 mlwydd oed, sy'n byw yn Ninas a Sir Abertawe.

Gall y gwasanaeth eich cynorthwyo chi gyda'r canlynol:

- Hawlio Budd-daliadau Lles ac uchafu eich incwm i'r eithaf.
- Dod o hyd i wybodaeth am wasanaethau lleol a chyfleoedd yr hoffech chi fynediad iddynt.
- Trefnu atgyweiriadau, gwneud gwaith cynnal a chadw neu addasiadau i'ch cartref.
- Darparu cymorth i'ch cynorthwyo chi i barhau i fyw yn y cartref rydych chi ynddo ar hyn o bryd.

Gweithwyr Cymorth Tenantiaeth

Mae pob Gweithiwr Cymorth Tenantiaeth yn atebol i wiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, yn derbyn cyflwyniad cynhwysfawr, hyfforddiant rheolaidd, goruchwyliaeth a chymorth i sicrhau eu bod nhw'n darparu'r gwasanaeth gorau posib a'n cwrdd â'r gofynion Deddfwriaethol a'r Codau Ymddygiad.

Tai â Chymorth

Mae Cymdeithas Tai Teulu'n darparu ystod fawr o wasanaethau cymorth drwy gydol Abertawe, Castell-nedd a Sir Gaerfyrddin sy'n cynnwys gwasanaethau tai â chymorth a chymorth fel y bo'r angen.

Rydym yn darparu tai â chymorth i bobl sydd â salwch meddwl ac i bobl sydd angen cymorth i reoli eu cartref.

Mae'r math o gymorth rydyn ni'n darparu'n cynnwys:

- Cyngor ar sut i reoli arian - talu biliau, mynediad i fudd-daliadau, arbed arian.
- Gofalu am gartref - cyngor ar denantiaeth, gwella sgiliau byw, cyd-dynnu gyda chymdogion, sôn am atgyweiriadau.
- Cadw'n weithgar yn y gymdeithas - Cael mynediad i gyflogaeth, hyfforddiant ac addysg, mynediad i gyfleusterau cymdeithasol a hamdden, cyngor ar gynnal perthnasau gyda theulu a ffrindiau.
- Cadw'n iach - Mynediad i wasanaethau Meddyg Teulu, gwasanaethau cymdeithasol ac ati, cymorth i reoli meddyginiaeth, a chyngor ar fyw yn iach.
- Symud Ymlaen - cymorth i ddod o hyd i lety addas, cymorth gyda cheisiadau, gyda threfnu i symud tŷ, cyngor gyda dodrefnu, trefnu biliau.

Os yw tenantiaid yn derbyn cymorth gan asiantaethau eraill, bydd manylion cymorth yn cael eu darparu gan yr asiantaeth sydd ynghlwm.

Gallwch chi weld manylion llawn o'r gwasanaethau hyn yn y Canllaw perthnasol i Wasanaethau sy'n cael ei roi i denantiaid sy'n derbyn gwasanaethau cymorth, neu oddi ar wefan y Gymdeithas yn www.fha-wales.com.

Yn ogystal, gellir gofyn am gopi o'r Canllaw i Wasanaethau yn uniongyrchol oddi wrth staff y prosiect neu Reolwr Gwasanaethau Tai â Chymorth y Gymdeithas ar 01792 482161.

Ymddygiad annerbyniol

Niwsans gan eraill

Gallai hyn fod yn niwsans sy'n gysylltiedig â sŷn neu gyda materion gwrthgymdeithasol mwy difrifol. Gallwn ni geisio delio gyda'r niwsans.

- I gychwyn, efallai yr hoffech chi geisio siarad gyda'ch cymdogion i geisio datrys y broblem.
- Yn ail, os nad ydych chi eisiau siarad gyda'ch cymdogion neu os ydych chi eisoes wedi gwneud hyn, dylech chi gysylltu gyda'r Tîm Rheoli Tai i egluro'r problemau rydych chi wedi bod yn cael.
- Fe fyddwn ni'n gallu rhoi gwybod i chi os fedrwn ni roi cymorth a chyngor i chi.
- Gallwn ni roi arweiniad i chi ar beth ddylech chi wneud nesaf a hefyd, ar beth fedrwn ni ac na fedrwn ni wneud i ddelio gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Sylwer ein bod ni'n trin gwybodaeth yn gyfrinachol. O ganlyniad, dim ond y bobl sydd angen gwybod y wybodaeth yma fydd yn cael mynediad iddo.

RHAN 11

Gellir cysylltu â'r Tîm Rheoli Tai drwy ffonio 01792 482702, drwy anfon llythyr i 43 Heol Walter, Abertawe, SA1 5PN neu drwy anfon e-bost i info@fha-wales.com.

Gwybodaeth ddefnyddiol

Rhifau Ffôn

Darllediadau Mesuryddion

Nwy

Trydan

Dŵr

Cymdeithas Tai Teulu (Cymru) Cyf
41-43 Heol Walter
Abertawe
SA1 5PN

Rhif ffôn: 01792 460192
Ffacs: 01792 473726
E-bost: info@fha-wales.com
Gwefan: www.fha-wales.com

Mae gan Gymdeithas Tai Teulu (Cymru) Cyf statws elusennol

Os hoffech chi'r llawlyfr hwn yn y Saesneg neu mewn unrhyw fformat arall, cysylltwch â ni.